

## **RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 17 Awst, 2020**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00yp ar ddydd Iau, 20 Awst, 2020. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00yp ar ddydd Iau, 27 Awst, 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 28 Awst, 2020.

**Presennol:** Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R.Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Bryan Owen, Dylan Rees.

**Ymddiheuriadau:** Dim

(10:30 y. b. tan 11:30 y. b.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Cofnodion</b> Amherthnasol
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2020 fel rhai cywir.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Amherthnasol</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Y Sefyllfa Ddiweddaraf ar Gynllunio a Chyflawni Adferiad o'r Coronafeirws</b> Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd -</b> <ul style="list-style-type: none"><li><b>Rhyddhau £200,000 o'r Cyfraniadau Refeniw sydd ar gael i'r Gronfa wrth Gefn a glustnodwyd (balans cyfredol £842,917) er mwyn ariannu cost datblygu cynlluniau cyfalaf â blaenoriaeth a gweithio tuag at sicrhau cyllid grant cyfalaf ychwanegol i roi'r cynlluniau hynny ar waith.</b></li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Dad-neilltuo 25% o gyllideb teithio a chynhaliaeth 2020/21 (£115,420) a'i ail-neilltuo i waith adfer brys:-</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Arbrawf rhithwir Cyswllt Môn yn holl lyfrgelloedd yr Ynys.</b></li> <li>• <b>Galluogi trawsnewid prosesau busnes cyn gynted â phosibl.</b></li> <li>• <b>Cyflwyno system ddigidol a phe cyn hyfforddi newydd i wella a mireinio monitro gwaith rheoli contractau, adrodd arnynt a gwireddu buddion.</b></li> </ul> </li> </ul>
<b>RHESWM AM Y PENDERFYNIAD</b>	<b>Er mwyn hyrwyddo gwaith cynllunio adfer a chyflawni lleol a sicrhau cefnogaeth i benderfyniadau a wneir yn syth</b>
<b>A OES MODD EI ALW I MEWN?</b>	<b>Oes</b>

<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>5 Y Polisi Gosod ar gyfer Tai Cymdeithasol a Covid-19</b> Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai
<b>PENDERFYNIAD</b>	<b>Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Newid rhannol dros dro i'r Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer tai mewn ymateb i effaith Covid-19 ar lety brys/dros dro i aelwydydd digartref am gyfnod o hyd at 6 mis yn dilyn argymhelliad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â digartrefedd.</b></li> <li>• <b>Bod achosion o osod llety yn ystod y cyfnod hwn i Aelwydydd Digartref yn cael eu cymeradwyo gan Reolwr y Tîm Opsiynau Tai.</b></li> <li>• <b>Bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn diweddariad ymhen blwyddyn ar effaith y newid rhannol dros dro i'r Polisi Gosod Tai Cyffredin.</b></li> </ul>
<b>RHESWM AM Y PENDERFYNIAD</b>	<b>I ymateb i anghenion tai brys/dros dro o ganlyniad i bandemig Covid-19 yn unol â</b>

	<b>chanllawiau Llywodraeth Cymru.</b>
<b>A OES MODD EI ALW I MEWN?</b>	<b>Oes</b>

### **EITEM GYFRINACHOL**

<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>7 Datblygiadau Tai Ychwanegol</b> Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai
<b>PENDERFYNIAD</b>	<b>Penderfynwyd symud ymlaen i ddatblygu pump o unedau ychwanegol ar safle'r Marquis, Rhosybol.</b>
<b>RHESWM AM Y PENDERFYNIAD</b>	<b>I gymeradwyo unedau tai ychwanegol ar y safle i gyfarch anghenion tai pellach yn lleol.</b>
<b>A OES MODD EI ALW I MEWN?</b>	<b>Oes</b>